Joseph Parry, 1841–1903
Cerddor a chyfansoddwr

Yn ystod y 19eg ganrif bu diwygiad cerddorol ymhlith Ymneilltuwyr Cymru. Ar ddechrau'r ganrif honno yr oedd canu cynulleidfaol ar y cyfan yn unsain aflafar ac offerynnau cerdd yn cael eu cysylltu â'r Diafol. Yn ystod y ganrif gweddnewidiodd yr agwedd tuag at gerddoriaeth ac fe ddaeth canu cynulleidfaol, yn bedwar llais ac offerynnau, cerddorfeydd a chorau, yn beth cyffredin. Yr oedd pobl fel Joseph Parry yn allweddol yn y diwygiad hwn.

Fel rhan o'r Chwyldro Diwydiannol fe dyfodd Merthyr Tudful o fod yn dref fechan wledig i fod yn dref enfawr brysur yn ystod y 19eg ganrif, ac yno y ganwyd Joseph Parry ar 21 Mai 1841. Fel cymaint o fechgyn ifanc yn y cyfnod hwnnw fe aeth i weithio mewn pwll glo, sef glofa Goblins a phan yn ddeuddeg oed cafodd ei gyflogi yng ngwaith haearn Cyfarthfa. Deuai ei dad Daniel Parry yn wreiddiol o Drewyddel, Aberteifi, a'i fam Elizabeth o Gydweli, Caerfyrddin, a chawsant nythaid o wyth o blant a Joseph oedd y trydydd ohonynt. Anfonwyd ef am gyfnod byr i ysgol oedd yn gysylltiedig â gwaith Cyfarthfa. Mynychai'r teulu Bethesda, capel yr Annibynwyr, lle'r oedd pob un ohonnynt yn canu yn y côr gyda'i gilydd. Ymunodd Joseph Parry hefyd â chôr cymysg a arweinid gan Rosser Beynon.

Rhwng 1815 a 1859 amcangyfrifir bod 4,917,598 o bobl gwledydd Prydain wedi ymfudo, ac yn eu plith yr oedd Joseph Parry a'i deulu. Hwyliodd Daniel Parry o Gaerdydd i Philadelphia yn Ionawr 1853 gan ymgartrefu yn Danville, Pennsylvania yn yr Unol Daleithiau. Y flwyddyn ddilynol ymunodd ei briod ag ef gyda pedwar o'r plant, a Joseph yn eu plith. Cafodd y mab swydd fel roliwr yn The Rough a Ready Rolling Mills yn y dref. Yr oedd ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth yn parhau a dechreuodd gael gwersi gan John Abel Thomas ac yna John M. Price, a datblygodd yn sydyn fel cerddor. Dechreuodd gystadlu mewn eisteddfodau yn America a Chymru ac enillodd y brif wobr yn eisteddfod Danville

1860 gyda'r gytgan 'A Temperance Vocal March'.

Daeth drosodd i eisteddfod Aberystwyth ym 1865 lle y cafodd groeso gwresog a'i dderbyn i Urdd Cerddor, fel 'Pencerdd America'. Penderfynodd Cyngor yr eisteddfod dalu am ddwy flynedd o hyfforddiant iddo; y cyntaf yng ngholeg Dr Evan Davies, Abertawe, a'r ail yn y Royal Academy of Music yn Llundain. Sefydlwyd cronfa i ariannu'r fenter ac erbyn haf 1868 yr oedd $7,000 yn y coffrau yn ddigon iddo astudio yn Llundain am dair blynedd. Y diwedd fu iddo ennill gradd Mus.Bac. Coleg Sant Ioan, Caergrawnt.

Dychwelodd i Danville ym 1871 gan sefydlu ysgol gerdd yno ond yna dewiswyd ef yn bennaeth adran cerdd newydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a daliodd y swydd honno o 1874 i 1880. O 1881 i 1888 bu'n bennaeth coleg cerdd a sefydlodd yn Abertawe. Yng nghyfnod olaf ei fywyd, o 1888 hyd ei farwolaeth, bu'n ddarlithydd cerddoriaeth yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Caerdydd ac am gyfnod yn organydd eglwys Annibynnol Ebeneser. Bu'n gyfansoddwr toreithiog trwy gydol ei oes yn cynhyrchu caneuon, cytganau, anthemau, tonau, a rhai gweithiau offerynnol. Ei ddarnau enwocaf yw'r operâu *Blodwen* (1880) a *Saul* (1892) a'i emyn-donau 'Aberystwyth', 'Sirioldeb' a 'Dies Irae'. Bu farw 17 Chwefror 1903 ym Mhenarth, Caerdydd. Dywedid bod 7,000 o alarwyr wedi ymgynnull ar gyfer ei angladd yng nghapel Bethel, Penarth.